**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 783 (Cy.84)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan weithrediaeth i'r awdurdod (sy'n gorfod bod ar un o'r ffurfiau a bennir yn adran 11(2) i (5) o'r Ddeddf) onid yw'r swyddogaethau hynny wedi'u pennu yn swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod.

Pennodd Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") nifer o swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod neu sydd i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r fath i raddau cyfyngedig neu o dan amgylchiadau penodedig yn unig. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu swyddogaeth ychwanegol yn un nad yw i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth.

Mae Rheoliad 2 yn gwneud diwygiad i Atodlen 1 i Reoliadau 2001. Ceir geiriau ychwanegol (ym mharagraff 14) ynglŷn â phenodi staff er mwyn ei gwneud yn eglur nad cyfrifoldeb gweithrediaeth i awdurdod lleol fydd penderfynu amodau a thelerau (gan gynnwys gweithdrefnau diswyddo). Mae'r diwygiad yn mewnosod cyfeiriad at adran 13 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001. Mae'r diwygiad hwn yn golygu bod y pŵer i wneud Gorchymyn sy'n enwi lle yn fan cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau'r heddlu mewn perthynas ag adran 13(2) yn un y mae'r rhaid iddo beidio â chael ei arfer

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 783 (W.84)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Amendment) (Wales) Regulations 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Part II of the Local Government Act 2000 provides for the discharge of a local authority's functions by an executive of the authority (which must take one of the forms specified in section 11(2) to (5) of the Act) unless those functions are specified as functions that are not the responsibility of the authority's executive.

The Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2001 ("the 2001 Regulations") specified a number of functions that are not to be the responsibility of an authority's executive or are to be the responsibility of such an executive only to a limited extent or only in specified circumstances. These Regulations specify an additional function as one not to be the responsibility of an executive.

Regulation 2 makes an amendment to Schedule 1 to the 2001 Regulations. There is additional wording (at paragraph 14) in relation to the appointment of staff to clarify that determination of terms and conditions (including procedures for dismissal) are not to be the responsibility of the executive of a local authority. The amendment inserts reference to section 13 of the Criminal Justice and Police Act 2001. This amendment means that the power to make an Order identifying a place as a designated public place for the purposes of police powers in relation to section 13(2) is one that must not be exercised by the executive of a

gan weithrediaeth i awdurdod lleol. Mae i'r diwygiad hefyd yr un effaith mewn perthynas â phwerau i gymeradwyo Cynlluniau Strategol Partneriaethau Pobl Ifanc a Phartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc o dan adrannau 123 i 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

local authority. The amendment also has the same effect in respect of powers to approve Young Peoples Partnership Strategic Plans and Children and Young Peoples Framework Partnerships under sections 123 to 125 of the Learning and Skills Act 2000.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 783 (Cy.84)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *21 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym* | *1af Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 13, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**).

**Enwi, cychwyn, a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Diwygio Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001**

**2**.-(1) Diwygir Atodlen 1 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod) i Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001(**b**) fel a ganlyn.

(2) Ychwanegir at ddiwedd paragraff 14 yn Rhan I (Swyddogaethau amrywiol) yng ngholofn (1)

> "ac i benderfynu'r amodau a thelerau yn amodol i'r rheini y daliant eu swydd (gan gynnwys gweithdrefnau i'w diswyddo)."

(3) Yn Rhan I (Swyddogaethau amrywiol) ar y diwedd, ychwanegir:

(a) yng ngholofn (1):

(a) 2000 p.22.

(b) O.S. 2001/2291 (Cy.179).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 783 (W.84)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Amendment) (Wales) Regulations 2002

| | |
|---|---|
| *Made* | *21st March 2002* |
| *Coming into force* | *1st April 2002* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by sections 13, 105 and 106 of the Local Government Act 2000(**a**).

**Name, commencement and application**

**1.**-(1) These Regulations are called the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 and shall come into force on 1st April 2002.

(2) These Regulations apply to local authorities in Wales.

**Amendment to Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2001**

**2**.-(1) Schedule 1 (Functions not to be the responsibility of an authority's executive) to the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2001(**b**) shall be amended as follows.

(2) There shall be added to the end of paragraph 14 in Part I (Miscellaneous functions) in column (1)

> "and to determine the terms and conditions on which they hold office (including procedures for their dismissal).".

(3) In Part I (Miscellaneous functions) at the end there shall be added:

(a) in column (1):

(a) 2000 c.22.

(b) S.I. 2001/2291 (W.179).

"**17**. Y pŵer i wneud gorchymyn sy'n enwi lle yn fan cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau'r heddlu mewn perthynas ag yfed alcohol.";

(b) yng ngholofn (2):

"adran 13(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p.16)."(**a**);

(c) yng ngholofn (1):

"**18**. Y pŵer i gymeradwyo Cynlluniau Strategol Partneriaethau Pobl Ifanc; a"

(ch) yng ngholofn (2):

"Adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000"(**b**);

(d) yng ngholofn (1):

"**19**. Y pŵer i gymeradwyo Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc."; ac

(dd) yng ngholofn (2):

"adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000".

"**17**. Power to make an order identifying a place as a designated public place for the purposes of police powers in relation to alcohol consumption.";

(b) in column (2):

"section 13(2) of the Criminal Justice and Police Act 2001 (c.16)."(**a**);

(c) in column (1):

"**18**. Power to approve Young Peoples Partnership Strategic Plans.";

(d) in column (2):

"sections 123, 124 and 125 of the Learning and Skills Act 2000 (c.21)."(**b**);

(e) in column (1):

"**19**. Power to approve a Children and Young Peoples Framework Partnership."; and

(f) in column (2):

"sections 123, 124 and 125 of the Learning and Skills Act 2000."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**c**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**c**)

21 Mawrth 2002

21st March 2002

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 2001 p.16.

(b) 2000 p.21.

(c) 1998 p.38.

(a) 2001 c.16.

(b) 2000 c.21.

(c) 1998 c.38.

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090470-2

9 780110 904702

**£1.75**

W0037/04/02 ON